
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoi **rhannau 3 a 4** o
Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



**Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc**

## Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio;
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol;
- pan mae ganddyn nhw anabledd;
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu;
- pan maen nhw'n derbyn gofal; neu
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdanyn nhw fel y dylen nhw wneud.

## Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

*(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)*

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar rannau 3 a 4.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan - cliciwch yma:



## Paratoi

**Bydd pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw'n defnyddio'r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.**

Felly rydyn ni wrthi'n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae'r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

**Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi am y Cod Ymarfer a rhai o'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhannau 3 a 4 y Ddeddf.**

**Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn barod ynglŷn â'r rhain, ond rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.**

**Wedyn, byddwn ni'n anfon y codau a'r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio'n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.**



## Beth y mae Rhan 3 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 3 y Ddeddf yn golygu bod gan bawb hawl i gael rhywun i ystyried eu hanghenion. Mae hyn yn golygu eistedd i lawr gyda phobl a phenderfynu beth sydd angen digwydd i wella'u sefyllfa, beth y gallan nhw ei wneud a beth sydd angen i ni ei wneud. **Asesiad yw ein henw ar hyn.**

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnwys y bobl sy'n cael asesiad, a'u teuluoedd. Mae'n rhaid iddyn nhw wrando ar eu barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Mae hyn yn cynnwys edrych ar anghenion pobl sy'n ofalwyr ac yn ofalwyr ifanc.

**Fe hoffem ni edrych ar:**

## Asesiadau

**— ateb anghenion pobl.**

## Asesiadau — ateb anghenion pobl.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pob asesiad yn syml a'i fod yn cael ei gynnal yn y ffordd iawn ac yn ateb anghenion pobl.

Mae'r rheolau newydd yn dweud bod yn rhaid i bob asesiad ystyried o leiaf y pum prif faes yma:

- eu nodau personol neu'r canlyniadau yr hoffen nhw eu gweld;
- y pethau a fyddai'n eu hatal nhw rhag cyrraedd eu nodau;
- beth sy'n digwydd yn eu bywyd ac o'u hamgylch;
- eu cryfderau eu hunain a'r pethau y gallan nhw eu gwneud i helpu eu hunain; ac
- y risgiau.

Os oes gan rywun lawer o wahanol anghenion mewn gwahanol feysydd, yna bydd yn rhaid i'r asesiad fynd ymlaen i edrych ar y meysydd eraill i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Ar ddiwedd yr asesiad, bydd y person yn gwybod beth fydd yr awdurdod lleol yn ei wneud i helpu, a'r pethau y gallan nhw eu gwneud i'w helpu nhw eu hunain.

Bydd y Cod Ymarfer yn helpu i wneud yn siŵr bod pob awdurdod lleol yn cynnal ei asesiadau i'r un safon uchel ac yn yr un ffordd.



## Beth y mae Rhan 4 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 4 y Ddeddf yn golygu, pan mae awdurdod lleol yn gwneud asesiad, bod yn rhaid iddo edrych ar y cymorth a'r gofal y mae gan bobl hawl i'w cael oddi wrth yr awdurdod lleol, ac ar beth y gallan nhw ei wneud drostyn nhw eu hunain. **Eu cymhwysedd yw ein henw ar hyn.**

**Mae yna ddau faes yr hoffem ni edrych arnyn nhw yn y rhan yma o'r Ddeddf:**

### Cynlluniau gofal a chymorth – manylu ar y camau i'w cymryd i bobl gyrraedd eu nodau.

### Taliadau Uniongyrchol – helpu pobl i ddewis.

### Cynlluniau gofal a chymorth – manylu ar y camau i'w cymryd i bobl gyrraedd eu nodau.

Mae'r Ddeddf newydd yn golygu y dylai unrhyw un sydd â hawl i gymorth gael cynllun gofal a chymorth y mae rhywun yn edrych arno'n rheolaidd ac yn ei newid lle bo angen.

Mae'r Cod Ymarfer yn golygu bod yn rhaid gwneud pob cynllun gofal a chymorth yn yr un ffordd, ble bynnag y mae rhywun yn byw yng Nghymru.

Mae'n rhaid i'r canlynol fod ym mhob cynllun:

- nodau'r person a sut mae eisiau eu cyrraedd;
- yr anghenion y bydd y cynllun yn eu hateb;
- pwy sy'n gwneud beth;
- beth sydd ei angen (gan gynnwys arian) ac o ble y daw;
- sut i gadw llygad ar y cynllun a gwneud newidiadau lle bo angen;
- pwy yw'r prif berson cyswllt a fydd yn gwneud yn siŵr y bydd y cynllun yn digwydd.



## Taliadau Uniongyrchol — **helpu pobl i ddewis.**

Pan mae pobl yn cael arian er mwyn gallu dewis y cymorth a'r gofal y maen nhw eu heisiau, yna taliadau uniongyrchol yw ein henw ar hyn. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i bobl ar y penderfyniadau yn eu bywydau.

Mae'r Ddeddf newydd yn ei gwneud hi'n bosibl i fwy fyth o bobl ddewis cael taliadau uniongyrchol.

Mae'r rheolau newydd yn golygu:

- ein bod ni'n cael gwared â'r rheol sy'n dweud na ddylai rhai pobl gael taliadau uniongyrchol – fel pobl sydd â phroblemau â chyffuriau neu alcohol – er y byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel.
- bod pobl yn gallu prynu eu gofal oddi wrth awdurdodau lleol os ydyn nhw eisiau gwneud hynny;
- eu bod nhw'n gallu cyflogi rhywun yn eu teulu os oes angen iddyn nhw wneud hynny; ac
- y bydd awdurdodau lleol yn fwy agored i edrych ar ffyrdd newydd i ateb anghenion gofal a chymorth pobl os ydyn nhw eisiau gwneud hynny.

Bydd y Cod Ymarfer yn manylu ar gamau i helpu awdurdodau lleol ddelio â thaliadau uniongyrchol fel eu bod nhw yr un fath ar draws Cymru.

## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fyddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**erbyn 2 Chwefror 2015**



## Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Cod Ymarfer a'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhannau 3 a 4 y Ddeddf yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

